

Cystadleuaeth 73

Soned, Adre

1. Gwawr sef Megan Richards, Brynderi, 16 Albert Street, Aberaeron
2. Dolgellau sef Gwerfyl
3. Jorem sef John Meurig Edwards, Aberhonddu

Soned.

Adre.

Mi glywaf swm telynnau yn y gwynt
Wrth i mi eto nesu at y ddôr,
Ar ol bod eto ar sawl nwyfus hynt,
Y croeso yn fy nisgwyl fydd yn stôr.
Os unig yw mae eto'n llawn o swyn,
Ac awel chwery yng nghymanfa'r brwyn.
Ar adar bach a ganant yn y llwyn
Eu mawl o groeso i mi nol i'r twyn.
Caf eto weled bugail ar ei daith
Yn dyfod ar hyd erwau'r brynau llwm,
Lle pawr y defaid am y misoedd maith
Cyn iddynt ddychwel drennydd lawr y cwm.
Mae syched ar fy nghalon fach o hyd
Am y dyddiau gynt yn fy hafan glyd.

Gwawr.

